

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Mehefin 9, 2015 am 7.30 o'r gloch.

AGENDA

Gweddi

1. Ymddiheuriadau: Elfed ap Gomer.

2. Datgan diddordeb:

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 12, 2015

4. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 12, 2015

Eitem 9.ch. Llythyr (28/5/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod sydd ddim angen sefydlu cofrestr o fuddiannau aelodau.

Eitem 11.a. Llythyr ateb (13/5/2015) yn rhoi gwybod mae'r mater wedi cael ei roi i Adran Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cyngor Gwynedd.

Eitem 11.c. Cafwyd gwybod bod Elfed ap Gomer wedi cael map.

Eitem 11.d. Llythyr ateb (15/5/2015) oddi wrth Adran Addysg yn rhoi gwybod mae cofnodion Corff Llywodraethol, sydd wedi cael ei gadarnhau yn gywir, yn ddogfennau cyhoeddus. Nid oes hawl rhannu gwybodaeth gyfrinachol.

5. Materion Ariannol

a. Derbyniwyd (16/5/2015) £1,130 oddi wrth Glyn Rees & Son. Taliad at Selwyn Goldsworthy. £650 (Claddedigaeth gyntaf) + £480 (hawl claddu). Angladd ar .

Mae camddealltwriaeth wedi ei wneud gyda'r taliad. Y pris ydy £655 = £175 (claddu gweddillion o'r amlogfa.) + £480 (bedd ar gyfer tri pherson). Mae angen adalu Glyn Rees & Son £475.

b. Mae Mr John D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, wedi archwilio'r Cyfrifon y Cyngor 2014-2015. Anfonwyd y ffurflen ymlaen i Hacker Young.

Mae Hacker Young, Archwiliwr Allanol, wedi colli'r contract i wneud gwaith o'r fath yn y dyfodol.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Mae'r Clerc o'r farn:

i. Mae angen torri coed a chlrrio gordyfiant yn gornel y fynwent, islaw Ty'r Elor (yr adeilad sydd wrth y gât i'r fynwent). Mae'n gorchuddio tri bedd.

i. Mae angen i'r aelodau archwilio'r darn diweddaraf o'r fynwent h.y. rhwng y gât isaf a'r wal.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio:

NP5/65/289C. Adeiladu estyniad ac ymestyn cwrtil. Tawelfryn, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (22/5/2015).

b. Llythyr (15/5/2015) yn rhoi gwybod maent yn ymchwilio i'r defnydd Hen Doiledau yn Llanelltyd.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (13/5/2015) oddi wrth Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth o gynllun tuag at wasanaethau cymdeithasol ac iechyd a'r plethiad rhwng y gwasanaethau Cyngor Gwynedd a Prifysgol Betsi Cadwaladr.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Trefnwyd cael cyfarfod gyda Mr Iwan ap Trefor, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cyngor Gwynedd yn Swyddfa Penarlag ar Mai 29, 2015 am 12:30yp. Mae caniatâd wedi ei roi gan Llywodraeth Cymru i ddiogelu ffordd A496 ger Taicynhaef a chawn wybod beth yw diweddaraf am wneud gwaith yn Bontddu.

Gohiriwyd cyfarfod oherwydd camddealltwriaeth. Cafwyd gwybod ganddo bydd gwaith ar ffordd A496 ger Taicynhaef yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol bresennol. Bydd y gwaith yn cynnwys rhoi 'centre hatching' o Borthwnog Hotel i Brynmelyn, rhoi 'double white line' o Borthwnog Hotel i Bontddu, a rhoi 'crash barriers' ar ochr y ffordd lle mae tai yn is na'r ffordd orllewinol o Borthwnog Hotel. Bydd mwy o wybodaeth wedi manylion y gwaith cael ei baratoi.

Yn Bontddu mae llinell wen wedi cael ei roi ar ochr y ffordd trwy'r pentref ac mae'n debygol bydd marciau yn cael ei roi ar draws y ffordd i arafu cyflymder y traffic.

10. Materion Brys

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc